Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**21 Mehefin 2022**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Diweddariad ynghylch alldro ariannol 2021/22 a chyllideb refeniw arfaethedig Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer 2022/23. |
| AWDUR: | Justin Davies – Rheolwr Corfforaethol Cyllid Craidd - Ceredigion |

## 1. Diben yr adroddiad

1.1. Adrodd ynghylch sefyllfa Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru o ran alldro refeniw ar gyfer 2021/22 ac ystyried cyllideb refeniw 2022/23.

## 2. Penderfyniad(au) a geisir

2.1. Cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer 2022/23.

## 3. Cefndir ac ystyriaethau perthnasol

3.1. Ers i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gael ei sefydlu'n ffurfiol trwy'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau ym mis Rhagfyr 2019, mae gweithgarwch datblygu hyd yn hyn yng nghyswllt Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi'i ariannu i raddau helaeth gan gyfraniadau ar y pryd gan y ddau Awdurdod Lleol a chyllid grant allanol (Llywodraeth Cymru).

3.2. Cafwyd cyllid refeniw ychwanegol ym mis Chwefror 2021 gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer elfen o gostau refeniw er mwyn helpu i sefydlu Swyddfa Rheoli'r Portffolio ar gyfer y cyfnod hyd at fis Gorffennaf 2023. Nid oes cyllid wedi'i sicrhau eto ar gyfer Swyddfa Rheoli'r Portffolio y tu hwnt i fis Gorffennaf 2023. Gan fod cytundeb cyllid grant ar wahân yn berthnasol i'r cyllid grant hwnnw, nid yw'n rhan o gyllideb Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru.

## 4. Y sefyllfa o ran alldro refeniw ar gyfer 2021/22

4.1. Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2021, cymeradwyodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gyllideb refeniw o £216,038 ar gyfer 2021/22, wedi'i hariannu yn gyfartal gan Gyngor Ceredigion a Chyngor Powys.

4.2. Roedd cyfanswm y gwariant yn ystod 2021/22 yn £209,412, sef ychydig yn llai na'r gyllideb. Bydd Cyngor Powys a Chyngor Ceredigion yn cyfrannu £104,706 yr un tuag at y gwariant.

4.3. Bydd Datganiad Blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer 2021/22 a bydd yn cael ei archwilio gan Archwilio Cymru. Bydd y Datganiad wedi'i Archwilio yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022.

## 5. Cyllideb refeniw 2022/23

5.1. Caiff cyllideb refeniw arfaethedig Cyd-bwyllgor Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer 2022/23, sy'n gyfanswm o £200,000, ei hamlinellu yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Y cynnig yw bod y gwariant yn cael ei ariannu'n gyfartal gan Gyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ceredigion.

## 6. Argymhellion

6.1. Bod y Bwrdd yn nodi'r sefyllfa o ran alldro ar gyfer 2021/2022

6.2. Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol o £200,000 ar gyfer y flwyddyn 2022/2023, i'w hariannu'n gyfartal gan Gyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys fel yr amlinellir yn Atodiad 1.

## 7. Goblygiadau cyfreithiol

7.1. Deddf Llywodraeth Leol a Chyllid 1972

## 8. Goblygiadau o ran adnoddau dynol

8.1. Nid oes goblygiadau o ran adnoddau dynol yn codi o'r adroddiad hwn.

## 9. Goblygiadau ariannol

9.1. Sicrhau cydymffurfiaeth ariannol.

**10. Atodiadau** – Atodiad 1 Cyllideb Refeniw 2022/23